

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor y Gymraeg

DYDDIAD: 25 Mai 2023

LLEOLIAD: Hybrid

TEITL: Diweddariad Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

PWRPAS YR ADRODDIAD: Adroddiad cynnydd y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

CEFNDIR:

Pwrpas y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yw prosesu pob cais i enwi strydoedd a sicrhau bod pob eiddo yng Ngheredigion yn cael cyfeiriad swyddogol clir a diamwys. Yn ei dro, bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor, gwasanaethau brys a gwasanaethau eraill yn gallu lleoli unrhyw gyfeiriad eiddo. Nod y Polisi hwn yw annog datblygwyr a pherchnogion eiddo i wneud cais am gyfeiriadau swyddogol newydd neu gyfeiriadau swyddogol sydd wedi'u newid cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau allanol yn cael eu darparu ar unwaith.

Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd i ddiogelu'r Gymraeg o fewn ei gymunedau, ac i hybu a hwyluso'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol ac economaidd Ceredigion. Mae Ceredigion yn un o gadarnleoedd y Gymraeg.

Mewn perthynas â'r adroddiad, mae'r Polisi wedi'i ddiweddarau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i annog perchnogion tai i ystyried enwau tai Cymraeg, a all fod â tharddiad ieithyddol, gan gyfeirio at gyfeiriadau hanesyddol neu ddiwylliannol o fewn yr ardal ddaearyddol.

Mae'r Polisi wedi cael cydnabyddiaeth o arferion da yn ddiweddar gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, sydd wedi gofyn i'r Awdurdod am ganiatâd i rannu'r arferion da hyn gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Mae'r polisi'n nodi bod yn rhaid i unrhyw un sy'n dymuno enwi tŷ newydd ei adeiladu neu ail-enwi tŷ yng Ngheredigion, wneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd gyda'r enw arfaethedig ar gyfer yr annedd/anheddau newydd. Os yw'r enw presennol yn wreiddiol a hanesyddol, yn enwedig enw Cymraeg hanesyddol, yna anfonir llythyr safonol at y cwsmer yn gofyn iddynt ailystyried a chadw'r enw presennol (hyd yn oed os yw'r enw newydd arfaethedig yn enw Cymraeg). Mae'r llythyr safonol yn rhoi 10 diwrnod gwaith i'r cwsmer ailystyried ei benderfyniad. Fodd bynnag, y cwsmer sydd â'r penderfyniad terfynol (nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion ddim awdurdodaeth). Gwnaeth y Pwyllgor Iaith a'r Cabinet argymhellion i'r polisi (Medi 2016) y dylid cynnwys ymwadiad gyda'r llythyr, gan sicrhau bod yn rhaid i'r ymgeiswyr gydnabod cael y llythyr drwy ei lofnodi a'i ddychwelyd, mewn perthynas â'u penderfyniad terfynol ar enwi neu ailenwi eu cartref.

Dyma ddiweddariad ar sut mae'r swyddogaeth Enwi a Rhifo Strydoedd wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf (Ebrill 2022 – Mawrth 2023)

1. Enwau Eiddo

Newidiadau i enwau eiddo

Cymraeg i Saesneg – 3 chais

Crud y Gwynt i Sleepy Hollow
Ysgol Llanwenog i The Old School
Tŷ Dew i Sea Dew House

Saesneg i Gymraeg – 7 chais

Five Acres I Gors Villa
Quindon I Llysfaen
Castlehill I Tan-Y-Bryn
Glenover I Yma Mae Dreigiau
Pony Paradise I Cae Fychan
West Meath I Gorllewin Meath
Rose Cottage I Howny Fach

Cymraeg i iaith arall – 1 chais

Canfyddwn nad oes dim tuedd mewn ymgeiswyr o'r mathau hyn, ond mae gennym enghreifftiau o drigolion o Loegr, sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar, yn gwneud chais i newid enw eu heiddo Saesneg i'r Gymraeg. Eu rheswm dros hyn yw cefnogi'r traddodiadau lleol a ffurfio cwlwm gyda'r gymuned leol.

Eiddo newydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom 172 o geisiadau.

Enwyd yn Gymraeg – 158 o geisiadau
Enwyd yn Saesneg – 14 chais

Ers y polisi newydd a'r llythyr yn cael ei gynnwys, ni fu dim newid arwyddocaol yn y ffigurau. Mae'n ymddangos bod y llythyr i ystyried cyd-destun newid enw'r eiddo wedi dylanwadu ar bobl, ond er y llythyr mae gan berchennog yr eiddo'r hawl i enwi eu heiddo unrhyw beth (o fewn rheswm) ac mewn iaith o'u dewis.

2. Enwau Strydoedd

O ran enwi strydoedd, rydym wedi cael saith chais swyddogol i enwi strydoedd newydd. Yn ein Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd rydym yn mynnu bod pob stryd newydd a enwir yn cael ei henwi yn Gymraeg yn unig. Felly, enwyd y strydoedd newydd yn Gymraeg ac fel y dywed y polisi, ymgynghorwyd â Chyngor y Gymuned.

CLOS LLWYN PIOD, ABERTEIFI
Y GEULAN, ABER-PORTH
CAE'R WINLLAN, ABERTEIFI
**SAFLE NEWYDD, LLANNARTH – *Dim enw wedi'i gymeradwyo - Dan
ymgyngoriad***
GWAR Y GARTH, PENRHYN-COCH
RHOS Y BRENIN, PONTARFYNACH
GOLWG Y DYFFRYN, LLANWNNEN

Rydym wedi sylwi bod cynnydd yn nifer y datblygwyr sy'n defnyddio ysgolion lleol i helpu i greu / dewis enwau strydoedd. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithdy ym Mhenrhyn-coch.

Bu Ysgol Penrhyn-coch ac Angharad Fychan (Enwau Lleoedd Cymru) yn cymryd rhan mewn gweithdy i ddewis enw ar gyfer y stad newydd ym Mhenrhyn-coch. Awgrymodd y plant GWAR Y GARTH.

"Garth- dyma hen enw rhan uchaf y pentre' (Penrhyn Uchaf gynt), a Garth Uchaf a Garth Isaf yw'r ddwy stryd gyferbyn â'r Neuadd. Ond gan fod yr enw hwnnw'n prysur ddiplannu oddi ar gof pobl, mae'n gyfle gwych i gadw'r enw yn fyw. Ystyr Garth yw 'cefnen' - h.y. mae'n ddisgrifiad o'r trwyn o dir sy'n codi fyny o Gae Mawr i gyfeiriad Garej y bysus.

Maent wedi dewis Gwar fel cychwyn yr enw er mwyn rhoi amrywiaeth i enwau ystadau yn y pentref, mae nifer fawr o MAES Y ym Mhenrhyn-coch ac felly mae Gwar yn rhoi cyflythreniad taclus gyda Garth. Mae Gwar hefyd yn enw adnabyddus gan fod Cae Gwar Felin oedd enw'r cae lle mae Glan Seilo a Ger-y-cwm ar y map degwm.

Hoffwn ddiolch i Angharad Fychan fel ysgrifennydd Enwau Lleoedd Cymru am roi cymaint o'i hamser i arwain dau weithdy gyda disgyblion ysgol Penrhyn Coch. Mae'r gweithdy wedi bod o fudd i bawb gan mae "Cynefin" yw thema cwricwlwm yr ysgol.

Dyma luniau o'r gweithdy ar Twitter yr ysgol - [Ysgol Penrhyn-Coch on Twitter](#): "

Ymddengys fod y polisi enwi strydoedd yn gweithio, er mai dim ond saith cais a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn hon. Mae'n debygol bod Cyngor y Gymuned mewn sefyllfa dda i gymeradwyo enwi strydoedd o fewn ei gymunedau, lle mae gan yr aelodau wybodaeth leol dda o ran treftadaeth ac agweddau diwylliannol y gymuned, gan sicrhau bod yr enw uniaith Gymraeg yn berthnasol i'r fro.

3. Gwaith arall

Adroddiad Pum Mlynedd – Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru

Roeddwn yn rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen fel yr unig Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yng Nghymru. Gobeithio y bydd y mewnbyn yn helpu'r prosiect hwn i symud ymlaen.

Mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol wedi bodoli ers pum mlynedd bellach, ac mae llawer iawn wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw. Sefydlwyd y Rhestr mewn ymateb i bryderon cynyddol am fygythiadau i'n henwau lleoedd hanesyddol. Roedd dau ddiben i'r Rhestr: yn gyntaf, codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth gyfoethog enwau lleoedd hanesyddol ac annog eu defnydd parhaus, ac yn ail, creu cofnod o'r holl gyfoeth o enwau lleoedd yng Nghymru, fel y gellid cadw'r enwau, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau hynny lle nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.

Mae pumed pen-blwydd y Rhestr wedi rhoi cyfle i ni bwysu a mesur barn y cyhoedd a'r arbenigwyr ar sut y gallwn gryfhau'r Rhestr a'i hyrwyddo'n fwy effeithiol fel bod cymaint o bobl â phosibl yng Nghymru yn gallu dysgu am ein henwau lleoedd. Llenwodd y cyhoedd holiadur yn rhoi eu barn am wella'r Rhestr, a ffurfiwyd grŵp gorchwyl a gorffen gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd i ystyried y camau nesaf. Mae'r broses hon bellach wedi'i chwblhau, a gallwch ddod o hyd i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen yma:

<https://cbhc.gov.uk/adroddiad-pum-mlynedd-rhestr-enwau-lleoedd-hanesyddol/>

Fforwm Enwau Lleoedd y Sir

Cefais wahoddiad i sefydlu Fforwm newydd i drafod y materion sy'n codi ynghylch Enwau Lleoedd. Fel y gwychoch yn ôl pob tebyg, mae enwau lleoedd yn faes sy'n cael sylw yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru: 'Enwau Lleoedd Cymraeg - Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo'.

Mae swyddogion iaith a/neu swyddogion enwi strydoedd ac eiddo Awdurdodau Lleol yr ardaloedd a ystyrir yn 'gadarnleoedd' i'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ar y Fforwm i ddechrau, sef Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Bydd y fforwm hwn yn helpu i greu polisi newydd ar enwau lleoedd drwy Is-adran Cymraeg 2050.

ARGYMHELLIAD:

- Aelod o Bwyllgor y Gymraeg i gael yr adroddiad.

Enw Cyswllt: Steffan Jones

Swydd: Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd

Dyddiad yr Adroddiad 2 Mai 2023